PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI RHEOLI ASBESTOS

| **Dyddiad** | **Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid** | **Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau** |
|---|---|---|
| 1 Rhagfyr 2009 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 27 Chwefror 2020 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 14 Hydref 2019 |
| 21 Medi 2023 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | Adolygwyd Medi 2023 |

| **Swyddog Polisi** | **Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol** | **Cymeradwywyd gan** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 6 Tachwedd 2009 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2026

## 1. RHAGARWEINIAD

Dechreuodd asbestos gael ei ddefnyddio'n fasnachol ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chynyddodd yn raddol, gyda llawer iawn o asbestos yn cael ei ddefnyddio o'r 1950au i ddechrau'r 1970au. Defnyddiwyd asbestos ar gyfer amrywiaeth o dasgau, er enghraifft, adnewyddu adeiladau hŷn, inswleiddio thermol, i ddiogelu rhag tân ac mewn llawer o gynhyrchion adeiladu. Yn ogystal, defnyddiwyd asbestos mewn rhai offer hŷn, yn enwedig rhai'n gysylltiedig â lefelau gwres uchel, megis poptai Gavenclamp a menig gwrthsefyll gwres.

Mae asbestos yn derm cyffredinol am ddeunyddiau 'silicad' sy'n cael eu cloddio ar ffurf craig fwyn feddal. Gall ffibrau asbestos achosi canser; gellir anadlu ffibrau bach iawn i'r ysgyfaint, lle maent yn aros ac o bosibl achosi effeithiau afiechyd tymor hwy. Efallai nad yw cyffwrdd â deunyddiau asbestos ynddo'i hun yn risg gan fod asbestos yn beryglus dim ond os yw'r ffibrau eu hunain yn dod yn rhydd a chael eu cario yn yr aer.

O ganlyniad i'r risgiau posibl, erbyn 1999 gwaharddwyd mewnforio, cyflenwi a defnyddio o'r newydd bron pob math o ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACMs) yn y Deyrnas Unedig. Mae rheoli asbestos bellach yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth fanwl sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol a'i cholegau a'i gwasanaethau reoli asbestos ac amddiffyn staff, myfyrwyr ac eraill rhag dod i gysylltiad â ffibr asbestos.

Ni waherddir asbestos sy'n parhau i fod 'yn y fan a'r lle' ond rhaid ei reoli ac ni ddylai beri risg i iechyd.

## 2. DATGANIAD POLISI

Mae'r Polisi'n nodi polisi'r brifysgol ar reoli deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn y brifysgol a'i nod yw sicrhau bod y brifysgol yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac arfer da ar draws y sector Addysg Uwch.

Dylai'r polisi hwn gael ei ystyried fel y safon meincnod ar gyfer rheoli asbestos yn y brifysgol, gan nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau'r brifysgol a'i cholegau, gwasanaethau proffesiynol, staff, myfyrwyr a chontractwyr.

**Mae’r polisi'n berthnasol i’r canlynol:**

- Pob coleg a gwasanaeth proffesiynol.
- Staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr.
- Pob adeilad sy'n eiddo i Brifysgol Bangor ac ar brydles ganddi.

**Nid yw’r polisi'n berthnasol i'r isod:**

- Adeiladau ac ystafelloedd ar rent gan y brifysgol*.

***** lle bo ystafelloedd ac adeiladau'n cael eu rhentu dros dro gan golegau a gwasanaethau dylid sefydlu trefniadau lleol i gadarnhau nad yw asbestos yn peri risg i staff na myfyrwyr y brifysgol.

## 3. POLISIAU CYSYLLTIEDIG A DEDDFWRIAETH

Yn ogystal â gofynion cyffredinol y Ddeddf Iechyd a Diogelwch ac ati yn y Gwaith, llywodraethir rheoli deunyddiau sy'n cynnwys asbestos gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch benodol a manwl; yn enwedig y Rheoliadau Rheoli Asbestos a'u Codau Ymarfer a Chanllawiau a gymeradwywyd.

Fel rhan o reoli asbestos yn barhaus, mae'r brifysgol wedi comisiynu nifer o arolygon adeiladu i nodi deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACMs) a chedwir cofnod o'r holl ACMs hysbys ar ffurf Cofrestr Asbestos.

Mae'r ddogfen hon, ar y cyd â Chynllun y Brifysgol ar Reoli Asbestos, yn ffurfio System Prifysgol Bangor ar Reoli Asbestos.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

- Deiliad Dyletswydd: Prifysgol Bangor yw'r Deiliad Dyletswydd cyfreithiol, yn unol â Rheoliad 4 y Rheoliadau Rheoli Asbestos.
- ACM: Mae ACM yn derm cyffredinol am Ddeunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos (Asbestos Containing Materials).

## 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Trwy'r polisi hwn, mae'r brifysgol yn sefydlu trefniadau rheoli ar gyfer rheoli asbestos. Mewn rhai achosion, ac yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y brifysgol, bydd y brifysgol yn dirprwyo cyfrifoldeb a dyletswyddau dros weithredu'r polisi hwn i golegau a gwasanaethau proffesiynol priodol. Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

a. Atal, cyn belled ag sy'n ymarferol resymol, i bobl ddod i gysylltiad â ffibrau asbestos.

b. Sicrhau fod Cofrestr Asbestos addas ar gael ar gyfer yr holl adeiladau ac offer perthnasol yn yr ystâd a'r adeiladau hynny a brydlesir gan y brifysgol.

c. Sicrhau bod Cynllun Rheoli Asbestos addas, yn seiliedig ar arolygon adeiladau, ail-archwiliadau ac asesiadau risg, yn cael ei gynhyrchu a'i weithredu.

d. Darparu adnoddau priodol i reoli deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a chael gwared arnynt, lle bo'n briodol.

e. Rhoi labeli addas ar leoliadau neu ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

f. Sicrhau bod hyfforddiant, cyfarwyddyd a gwybodaeth am reoli asbestos yn cael eu darparu i staff, myfyrwyr a chontractwyr priodol.

g. Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyffredinol o asbestos, gan gynnwys System y Brifysgol ar Reoli Asbestos.

h. Adolygu'r System Rheoli Asbestos yn rheolaidd.

## 6. DYLETSWYDDAU'R GWASANAETHAU CAMPWS

Mae gan y Gwasanaethau Campws gyfrifoldeb i reoli deunyddiau sy'n cynnwys asbestos sydd o dan ei reolaeth a byddant yn:

a. Cynhyrchu a chynnal Cynllun Rheoli Asbestos effeithiol sy'n gysylltiedig â'r ystâd.

b. Penodi Swyddog Goruchwylio Asbestos i oruchwylio'r Cynllun Rheoli Asbestos a'i weithredu.

c. Sicrhau addasrwydd a defnyddioldeb y Gofrestr Asbestos.

d. Sicrhau y gwneir asesiad risg priodol ar yr holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, eu harchwilio o bryd i'w gilydd a chadarnhau nad ydynt yn peri unrhyw risg o bwys.

e. Cyfarwyddo a hyfforddi staff mewn Ymwybyddiaeth Asbestos os oes tebygolrwydd y gallent ddod i gysylltiad â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos wrth eu gwaith.

f. Sicrhau mai dim ond contractwyr cymwys trwyddedig neu wedi'u hachredu sy'n ymwneud â thynnu asbestos a phrojectau goruchwyliol a bod y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cael ei hysbysu fel bo'r angen am bob contract sy'n ymwneud â thynnu asbestos.

g. Sicrhau bod staff rheoli contractau yn ddigon cymwys i reoli projectau asbestos.

h. Lle cyflogir ymgynghorwyr, sicrhau eu bod yn cysylltu â'r Swyddog Goruchwylio Asbestos a'u bod yn ddigon cymwys i oruchwylio a rheoli'r project y cawsant eu penodi i'w gyflawni.

i. Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu adeiladau yn cael ei wneud gan roi sylw dyledus i risgiau asbestos ac yn unol â'r Cynllun Rheoli Asbestos.

j. Labelu, fel bo'n briodol, yr holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos neu leoliadau y maent ynddynt.

k. Tynnu sylw'r brifysgol at unrhyw bryderon sy'n ymwneud ag asbestos, gan gynnwys y rhai sydd y tu allan i'w maes cyfrifoldeb ei hun.

l. Monitro trefniadau ar gyfer rheoli asbestos.

## 7. DYLETSWYDDAU'R COLEGAU A'R GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae gan bob coleg a gwasanaeth proffesiynol gyfrifoldeb, lle bo hynny'n berthnasol, i reoli deunyddiau sy'n cynnwys asbestos sydd o dan eu rheolaeth ac i weithredu systemau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n addas. Mae hyn yn cynnwys:

a. Nodi'r holl offer sy'n cynnwys deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, gan sicrhau yr asesir y risg ar eu cyfer a'u rheoli, gyda'u manylion wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Asbestos y Brifysgol yn ogystal ag o fewn Cofrestr Asbestos leol.

b. Sicrhau nad oes neb yn tarfu neu'n ymyrryd â gwasanaethau neu ddeunyddiau adeiladau oni bai eu bod wedi cael caniatâd penodol i wneud hynny gan y Gwasanaethau Campws, a dim ond ar ôl cael cadarnhad nad oes unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn bresennol.

c. Hwyluso mynediad i staff y Gwasanaethau Campws neu gontractwyr penodedig, i ymchwilio ac asesu unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos a allai fod yn bresennol mewn ystafelloedd a mannau sydd o dan reolaeth y coleg/gwasanaeth.

d. Cyfarwyddo a/neu hyfforddi staff mewn Ymwybyddiaeth Asbestos os oes tebygolrwydd y gallent ddod i gysylltiad â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos wrth eu gwaith.

e. Rhoi gwybod ar unwaith i'r tîm Iechyd a Diogelwch, y Gwasanaethau Campws am bryderon yn ymwneud â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

## 8. DYLETSWYDDAU STAFF, MYFYRWYR AC YMWELWYR

Mae gan bob aelod staff, myfyriwr ac ymwelydd gyfrifoldeb dan y gyfraith i gydweithredu â'r brifysgol a/neu i beidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a sefydlir er hyrwyddo iechyd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys:

a. Peidio ag ymyrryd ag unrhyw ddeunydd adeiladu na gwasanaeth adeiladu.

b. Peidio â thynnu nac ymyrryd ag arwyddion sy'n nodi presenoldeb asbestos neu a osodwyd er hyrwyddo iechyd a diogelwch.

c. Cydweithredu â'r brifysgol a'i swyddogion ar bob mater sy'n ymwneud ag asbestos ac iechyd a diogelwch.

d. Rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryderon i'r Gwasanaethau Campws.

e. Mynd i hyfforddiant yn ôl y gofyn.

## 9. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ni ddylai'r datganiad polisi hwn a'i ganllawiau cysylltiedig gael unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw berson sydd â nodwedd warchodedig neu ar yr iaith Gymraeg.

## 10. CANLLAWIAU PELLACH

Gellir dod o hyd i ganllawiau a gwybodaeth ychwanegol am asbestos, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Asbestos a chanllawiau am ddeddfwriaeth a sut i gynnal asesiad risg asbestos, ar y wefan Iechyd a Diogelwch - https://www.bangor.ac.uk/hss/index.php.cy.

## 11. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

O bryd i'w gilydd bydd y Gwasanaethau Campws yn adolygu effeithiolrwydd eu Cynllun Rheoli Asbestos ei hunain a chydymffurfio â'r polisi hwn.

Dylai colegau/gwasanaethau proffesiynol, fel rhan o'u hadolygiad ysbeidiol o'u Hasesiad Risg Cyffredinol, werthuso eu gweithdrefnau eu hunain yn erbyn gofynion y polisi hwn.

Bydd y tîm Iechyd a Diogelwch, y Gwasanaethau Campws, yn adolygu trefniadau rheoli asbestos a'r polisi hwn o bryd i'w gilydd.

Bydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**